

# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Mesur - pwyso** |
| Adnoddau: | • 2 fwced a 'hanger' dillad.<br>• Numicons.<br>• Clorian syml.<br>• Hwpiau a gwrthrychau ar gyfer eu didoli. |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad</u>**<br>Dangos clorian i'r disgyblion. Trafod beth ydyw, beth mae'n ei wneud a sut mae ei defnyddio.<br>Cyflwyno geirfa, e.e. trwm, trymaf, ysgafn, ysgafnaf...<br>Gosod amrywiol wrthrychau ar ddwy ochr y glorian a thrafod pa un sydd drymaf, pa un sydd ysgafnaf, ac ati.<br><br>**<u>Cam 2: Numicon</u>**<br>Arbrofi gyda'r numicon yn y glorian. Bydd y rhai sydd gyfwerth â'i gilydd yn pwyso'r un faint. Yna, wrth roi rhai o wahanol werth ar y glorian, bydd un yn pwyso'n fwy na'r llall.<br>Gofyn cwestiynau fel 'Pa ddau numicon sy'n pwyso'r un faint â numicon 5?'<br><br>**<u>Cam 3: Didoli</u>**<br>Set o deganau neu dedis o amrywiol bwysau. Y dysgwyr i'w didoli mewn i grwpiau yn ôl eu pwysau – 2 hŵp, un ar gyfer pethau trwm ac un ar gyfer pethau ysgafn.<br><br>**<u>Cam 4: Clai</u>**<br>Y dysgwyr i greu pelen drom a phelen ysgafn a'u gosod ar y glorian er mwyn gweld eu pwysau.<br><br>**<u>Cam 5: Ardal Allanol</u>**<br>Creu clorian syml gan ddefnyddio dau fwced a 'hanger' dillad.<br>Y dysgwyr i bwyso amrywiol wrthrychau yn yr ardal allanol er mwyn gweld pa rai sy'n drwm/ysgafn.<br><br>**<u>Cam 6: Mynd am dro</u>**<br>Chwilio am bethau mae'r disgyblion yn meddwl sy'n drwm neu'n ysgafn. Trafod: 'Pam rydych chi'n meddwl ei fod yn drwm/ysgafn?' |



# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Cwestiynu: | • Pa un sydd drymaf/ysgafnaf?<br>• Pam rwyt ti'n meddwl ei fod yn drwm/ysgafn?<br>• Ydy hwn yn drwm neu'n ysgafn?<br>• Fedri di eu didoli i grŵp trwm ac ysgafn?<br>• Pa ddau numicon sy'n pwyso'r un faint â numicon ____? |
| Beth nesaf? | Dechrau mesur pwysau gan ddefnyddio mesurau ansafonol, e.e. blociau. |

